

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

4. Gwirfoddolwyr

4.5 Recriwtio gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg



Yn y blynyddoedd diwethaf, mae mudiadau gwirfoddol wedi cydnabod fwyfwy ei bod yn bwysig hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae hyn yn ategu gweledigaeth Llywodraeth Cymru sydd wedi'i disgrifio yng Nghynllun y Sector Gwirfoddol (2000), sy'n cydnabod bod gan bawb hawl i gymryd rhan a chael ei gynnwys ym mywyd ei gymuned drwy wirfoddoli.

Er mwyn parchu cydraddoldeb a sicrhau cynhwysiant cymdeithasol yma yng Nghymru, mae mudiadau'n ceisio gweithredu'n ddwyieithog i fwy o raddau. Mae cyhoeddi '*Iaith Pawb – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog*' yn 2003 a'r ymrwymiad i beri i Gymru fod yn 'wlad wirioneddol ddwyieithog' wedi hyrwyddo manteision dwyieithrwydd ymhellach.

Er bod y brif ddadl dros hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb yn ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol, drwy weithredu'n ddwyieithog gall eich mudiad gael budd hefyd drwy:

- Fabwysiadu arferion da. Agwedd hanfodol ar ymarfer da yw cynnig dewis gwirioneddol i'r cleient o ran yr iaith a ddefnyddir.
- Gwella ei ddelwedd fel mudiad Cymreig.
- Adlewyrchu'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu
- Apelio at ystod ehangach o wirfoddolwyr.
- Creu gwell cyfle i gael cyllid gan gyrrff sy'n edrych yn ffafriol ar fudiadau sydd â pholisi o ddenu gwirfoddolwyr o sawl rhan o gymdeithas.
- Gwella ansawdd ei wasanaethau i'r cyhoedd.

Efallai y bydd eich mudiad yn awyddus i recriwtio gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg i fod yn rhan o dîm am y rhesymau hyn, ond bydd angen ystyried hefyd y strategaeth recriwtio a ddefnyddir. Os oes angen gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg i gyflawni tasgau arbennig drwy gyfrwng y Gymraeg, fel ateb y ffôn, siarad â'r cyfryngau Cymraeg neu weithio gyda chleientiaid Cymraeg eu hiaith, dylid nodi hynny ar y cychwyn. Ni fydd pawb sy'n siarad Cymraeg yn fodlon cyflawni rolau o'r fath. Mae'n well ceisio cynyddu dwyieithrwydd yn gyffredinol drwy'r mudiad yn hytrach na chyfyngu'ch diddordeb i rai tasgau penodol sydd i'w cyflawni drwy'r Gymraeg.

Sut byddwch yn recriwtio gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg?

Mae gwirfoddoli'n rhan draddodiadol o fywyd cymunedau Cymraeg lle mae pobl wedi arfer helpu ei gilydd ac wedi arfer cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol.

Bydd pob math o grwpiau gwirfoddol yn codi mewn cymunedau i ddiwallu anghenion pobl leol. Yn aml ni fydd y rhai sy'n cymryd rhan yn ymwybodol eu bod yn wirfoddolwyr; gwelir 'gwirfoddoli' yn aml fel rhywbeth sy'n ymwneud â'r sefydliad a mudiadau ffurfiol. Mae'n bwysig i fudiadau fod yn ymwybodol o'r angen i ddilyn llwybr sensitif a gwahanol wrth recriwtio gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg.

- Mae'n bwysig gofalu bod gwirfoddolwyr Cymraeg yn teimlo bod croeso iddynt yn y mudiad. Gellid cysylltu hynny ag unrhyw bolisi ar gyfle cyfartal neu amrywiaeth sydd ar gael.
- Bydd delwedd ddwyieithog i'r mudiad yn adlewyrchu ei ymrwymiad i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.
- Drwy ddarparu gwybodaeth ddwyieithog, gan ddefnyddio iaith anffurfiol a chyfeillgar, bydd y mudiad yn dangos ei ymrwymiad i gynnig dewis o iaith yn fewnol ac yn allanol.

Sut i gyrraedd rhai sy'n siarad Cymraeg?

1. Gwnewch ymholiadau ynghylch mudiadau Cymraeg yn yr ardal (mae'n bosibl y bydd y Fenter Iaith Leol yn gallu rhoi manylion cysylltu) a gweithiwch drwyddynt i gyrraedd y gymuned Gymraeg, i drefnu cyfarfodydd ac arddangosfeydd ac i apelio am wirfoddolwyr. Rhai enghreifftiau ohonynt yw:

- Clybiau Ffermwyr Ifanc
- Urdd Gobaith Cymru (ceir grwpiau lleol ledled Cymru)
- Capeli ac Eglwysi
- Ysgolion lleol (gan gynnwys Cymdeithasau Rhieni/Athrawon)
- Canolfannau iaith
- Merched y Wawr
- Gwawr (mudiad Cymraeg i fenywod)
- Mentrau iaith
- Mudiad Ysgolion Meithrin (ceir grwpiau lleol ledled Cymru)
- Cynghorau gwirfoddol sirol
- Canolfannau gwirfoddolwyr lleol
- Corau a chymdeithasau Cymraeg.
- Eisteddfodau lleol ac is-bwyllgorau i'r Eisteddfodau Cenedlaethol a gwyliau cerdd cenedlaethol (fel yr Wyl Gerdd Dant) sy'n ymweld â'r ardal. Mae'r is-bwyllgorau'n cynnwys pobl leol.

2. Hysbyseb wch drwy'r cyfryngau Cymraeg:

- Radio Cymru (gorsaf radio genedlaethol sydd hefyd yn cynnig rhaglenni rhanbarthol ar wahanol adegau yn ystod y diwrnod)
- Slot Gymraeg yr orsaf radio leol
- Colofnau Cymraeg mewn papurau newydd lleol
- Y Papurau Bro misol. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi paratoi rhestr ohonynt
- Golwg (cylchgrawn Cymraeg cenedlaethol)

- Y Cymro (papur newydd Cymraeg cenedlaethol)
- Yr Herald Cymraeg (atodiad i'r Daily Post bellach)
- Rhaglenni ar S4C fel Wedi 3, Wedi 7, Uned 5

3. Rhowch dudalen ddwyieithog ar eich gwefan.

4. Manteisiwch ar ddiwyddiadau cenedlaethol fel Wythnos Gwirfoddolwyr (1-7 Mehefin), yr Eisteddfod Genedlaethol (yr wythnos gyntaf yn Awst), Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru (ganol Gorffennaf), Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd (yr wythnos sy'n dechrau ar ^wyl banc y Sulgwyn), Diwrnod Rhyngwladol y Gwirfoddolwyr (5 Rhagfyr) a threfnwch weithgareddau gweledol a fydd yn denu sylw.

5. Defnyddiwch fannau cyhoeddus yn y gymuned i osod hysbysebion e.e. llyfrgelloedd, ysgolion, meddygfeydd, siopau papurau newydd a chanolfannau gwirfoddolwyr.

Pwyntiau i'w hystyried wrth gynnwys gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg

- Dylid glynu wrth arferion cyfle cyfartal wrth recriwtio a dethol gwirfoddolwyr Cymraeg a Saesneg eu hiaith.
- Ceisiwch sicrhau bod gweithiwr cefnogi Cymraeg ar gael i wirfoddolwyr.
- Crefft yw cyfieithu ac ni ddylid ei wneud yn gyfrifoldeb i rai sy'n siarad Cymraeg heb roi'r hyfforddiant a'r gefnogaeth angenrheidiol iddynt.
- Mae delio â'r cyfryngau Cymraeg ar ran mudiad yn gyfrifoldeb mawr. Dylai siaradwyr Cymraeg gael yr hyfforddiant a'r gefnogaeth angenrheidiol a chyfarwyddyd llawn cyn gofyn iddynt wneud hynny.
- Dylai mudiadau geisio darparu cyrsiau hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg os oes angen. (Mae gan WCVA gronfa ddata o ymgynghorwyr a hyfforddwyr.)
- Mae gwirfoddoli'n fater o ddewis a dylai gwirfoddolwyr gael amser a chyfle i ystyried a ydynt am gyflawni'r tasgau a gynigir iddynt.
- Ni ddylent deimlo eu bod dan orfodaeth i gyflawni tasgau y maent yn eu hystyried yn amhriodol.
- Dylai mudiadau fod yn ymwybodol bod ar wirfoddolwyr Cymraeg angen yr un hyfforddiant a chymorth a roddir i wirfoddolwyr eraill sy'n gwneud gwaith tebyg.
- Efallai y bydd ar wirfoddolwyr Cymraeg angen hyfforddiant i'w galluogi i wneud eu gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, e.e. dysgu geirfa arbenigol, sgiliau ysgrifennu.

Mwy o wybodaeth

I gael mwy o wybodaeth neu ragor o gyngor am arferion da, recriwtio a chynorthwyo gwirfoddolwyr, cysylltwch â'r ganolfan gwirfoddolwyr leol neu'r cyngor gwirfoddol sirol ar gyfer eich ardal.

I gael mwy o wybodaeth am ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn eich mudiad, ewch i wefan WCVa neu cysylltwch â:

Mentrau Iaith

www.mentrau-iaith.com

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Estyn Llaw

www.estynllaw.org

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 5FH

Elusen Gofrestredig 218093

Ffôn: 0800 2888 329

help@wcva.org.uk

Ffacs: 029 2043 1701

www.wcva.org.uk



Ffôn: 0800 2888 329

www.wcva.org.uk

Cynhyrwyd gan WCVa, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli

Wedi ei ddiweddarau: 09/06/2011